Brîff Cyfathrebu / Communication Briefing **Hydref / Autumn 2010**

Ar Gyfer

Cyrff partneriaeth sy'n rhoi cymorth ac arweiniad i rieni a gwarcheidwaid.

Diben

Mae'r nodyn briffio hwn yn rhoi gwybodaeth i chi am gynllun Cronfa Ymddiriedolaeth Plant Cymru ac yn gofyn i chi helpu i godi ymwybyddiaeth o'r cynllun hwn drwy annog rhieni a gwarchodwyr a cymwys i wneud cais am daliad ychwanegol i Gronfa Ymddiriedolaeth eu plentyn cyn y dyddiad cau o 31 Ionawr, 2011.

A fyddech cystal ag anfon y nodyn briffio hwn at gydweithwyr eraill yn eich sefydliad a allai fod â diddordeb.

Cefndir

Fel rhan o Gynllun Cronfa Ymddiriedolaeth Plant Cymru mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cynnig ychwanegu £50 at gyfrif Cronfa Ymddiriedolaeth Plant pob plentyn ym Mlwyddyn 1 yn yr ysgol. Rhoddir £50 ychwanegol i bob plentyn o deuluoedd ag incwm isel.

Rydym o'r farn ei bod yn bwysig annog teuluoedd i fod yn fwy ymwybodol o fanteision cynilo, ac rydym yn sicr y bydd cynnig yr arian ychwanegol hwn yn helpu i roi hwb i gynilion plant Cymru a gwella'r cyfleoedd iddynt pan fyddant yn hŷn.

Ym mis Hydref, anfonodd yr Awdurdodau Lleol, ar ein rhan, lyfryn gwybodaeth a ffurflen gais at bob cartref sydd â phlentyn cymwys (plant a aned rhwng 1 Medi 2004 a 31 Awst 2005). Gofynnir i Rieni a Gofalwyr lenwi a dychwelyd y ffurflen gais at Lywodraeth y Cynulliad erbyn 31 Ionawr 2011 er mwy hawlio taliad ychwanegol y Gronfa Ymddiriedolaeth ar gyfer eu plentyn.

Meini prawf cymhwysedd

I fod yn gymwys i gael y swm atodol o **£50**, RHAID i'r plentyn fod wedi'i eni rhwng 1 Medi 2004 a 31 Awst 2005 (Blwyddyn 1 yn yr ysgol), bod â chyfrif y Gronfa Ymddiriedolaeth Plant eisoes a bod yn byw yng Nghymru ar 15 Medi 2010.

I fod yn gymwys i gael y swm atodol o **£100**, rhaid fod y plentyn yn hawlio prydau ysgol am ddim ar 15 Medi 2010. Neu efallai fod rhieni a gwarcheidwaid yn gymwys hefyd am y swm atodol o £100 os oeddent yn derbyn Credyd Treth Plant ac nad oedd eich incwm teulu yn fwy na £16,040 yn 2009-10, neu, **oedd y sawl sy'n derbyn y Credyd Treth Plant hefyd yn derbyn cymhorthdal incwm, lwfans ceisio gwaith yn seiliedig ar incwm, credyd pensiwn, neu lwfans cyflogaeth a chymorth**.

Mae Angen Eich Help Arnom

Byddem yn ddiolchgar iawn pe gallech helpu i godi ymwybyddiaeth o Gynllun Cronfa Ymddiriedolaeth Plant Cymru a'n helpu i annog rhieni i wneud cais cyn y dyddiad cau, sef 31 Ionawr 2011.

Rydym wedi darparu posteri, taflenni a hysbysebion gwe i'w lawrlwytho a'u hargraffu drwy'n gwefan **www.wales.gov.uk/ChildTrustFundCymru**

Byddem yn ddiolchgar pe gallech chi arddangos posteri yn eich derbynfa a sicrhau bod unrhyw rieni neu warcheidwaid cymwys yr ydych chi'n cysylltu â hwy'n rheolaidd yn cael gweld y taflenni.

I gael rhagor o wybodaeth am Gronfa Ymddiriedolaeth Plant Cymru ffoniwch 0800 496 0590 neu anfonwch e-bost i childtrustfundcymru@wales.gsi.gov.uk